

Cynyddu ffermio amaethecolegol yn rhanbarth Caerdydd: archwiliad cychwynnol

Cynnwys

Crynodeb.....	2
Y cefndir	3
Beth yw'r prosiect Ffermio Ymylol?	3
Amcan y Prosiect	3
Beth yw amaethecoleg?	3
Beth yw Bwyd Caerdydd?	4
Ble mae'r rhanbarth o gwmpas dinas Caerdydd?	4
Gweithdy i Randdeiliaid	6
Holiadur i'r cyfranogwyr a chyn y digwyddiad	6
Trosolwg o'r Gweithdy.....	8
Crynodeb o Rwystrau a Chyfleoedd.....	9
Crynodeb o'r Gweithdy Cynllunio Gweithredu	12
Y Camau Nesaf ar gyfer 2023	13
Atodiad 1: Cyfranogwyr y gweithdai a chyfranwyr.....	14


Crynodeb

Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Bwyd Caerdydd ddigwyddiad fel rhan o'r [Prosiect Ffermio Ymylol](#), er mwyn dod â rhanddeiliaid yn y rhanbarth ynghyd i ystyried sut i gynyddu cynhyrchiant bwyd amaetholegol yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r rhwystrau, y cyfleoedd a'r camau gweithredu posibl y gwnaeth y 22 o rhanddeiliaid eu nodi yn ystod y gweithdy.

Yn 2023, o ganlyniad i hyn, bydd Bwyd Caerdydd a phartneriaid yn cynnull gweithgor Ffermio Ymylol, a fydd yn ystyried sut i fwrw ati gyda'r gwaith hwn ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn darganfod mwy am y prosiect neu fod yn rhan o drafodaethau yn y dyfodol, cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk



Y cefndir

Beth yw'r prosiect Ffermio Ymylol?

Mae'r [Rhaglen Ffermio Ymylol](#), sy'n cael ei harwain gan [Sustain](#), yn gydweithrediad â phartneriaid ledled y DU er mwyn deall rhwystrau, canfod cyfleoedd a chamau gweithredu lleol, a datblygu polisi cenedlaethol er mwyn galluogi ffermio amaetholegol ar gyron dinasoedd fel rhan o adferiad economaidd gwyrdd.

Yn 2021, lluniodd cydweithrediad Ffermio Ymylol gyfres o ddigwyddiadau cynllunio gweithredol, ymchwil ar sail lleoedd, a sesiynau briffio polisi ym [Mryste](#), [Glasgow](#), [Llundain](#) a [Sheffield](#). O hyn, cyhoeddwyd adroddiad yn amlinellu argymhellion polisi cenedlaethol a lleol i gefnogi'r bwriad i agor tir o gwmpas trefi er mwyn cynhyrchu bwyd amaetholegol. [Darllenwch am hyn yma.](#)

Yn 2022, ymunodd Caerdydd â'r rhaglen i ymgymryd â chynllunio gweithredol i dynnu sylw at gyfleoedd, rhwystrau, a'r adnoddau y gallai fod eu hangen ar gyfer y camau nesaf. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y bartneriaeth bwyd cynaliadwy leol [Bwyd Caerdydd](#).

Amcan y Prosiect

Nodi camau i gynyddu faint o fwyd amaetholegol a gaiff ei gynhyrchu yn ardaloedd trefol Caerdydd a'r ardaloedd o gwmpas y ddinas a rhoi'r camau hynny ar waith.

Beth yw amaetholegol?

At ddibenion y prosiect hwn, gweithiodd Bwyd Caerdydd ar sail y diffiniad a ddefnyddir gan Gymdeithas Gweithwyr y Tir:

“Amaetholegol yw'r defnydd o egwyddorion mewn arferion ffermio sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng planhigion, anifeiliaid, pobl a'u hamgylchedd. Nod arferion ffermio amaetholegol yw gweithio gyda bywyd gwylt, lliniaru newid yn yr hinsawdd a rhol pŵer i dyfwr a chymunedau lleol greu systemau sy'n gweddu orau i'w hanghenion.”

Roedd cwmpas y prosiect yn cynnwys pob math o ddulliau cynhyrchu bwyd amaetholegol masnachol, gan gynnwys cig, llaeth, wyau, tir â'r garddwriaeth.

Mae astudiaethau achos [WWF – Gwlad Ein Dyfodol](#), a gaiff eu cynhyrchu gan LWA Cymru a Synnwyr Bwyd Cymru, yn tynnu sylw at arferion amaetholegol sydd ar waith ar ffermydd Cymru.



Mae'n werth nodi bod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod angen am ddiffiniad mwy penodol o amaethecoleg, i gynnwys manylion am ddulliau ffermio.

Beth yw Bwyd Caerdydd?

Mae **Bwyd Caerdydd** yn credu bod y bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn cael effaith aruthrol ar fywyd yng Nghaerdydd – nid yn unig ar iechyd pobl, ond ar gymunedau a busnesau, ffermwyr unigol, a'r amgylchedd hefyd. Mae bwyd da yn creu cymunedau cryf, iach a chydnerth.

Partneriaeth dinas gyfan o unigolion a sefydliadau yw Bwyd Caerdydd. Mae'n gweithredu fel canolbwynt ar gyfer cysylltu'r bobl a'r prosiectau sy'n gweithio i hyrwyddo bwyd iach ledled y ddinas, sy'n amgylcheddol gynaliadwy a moesegol; mae'n gweithredu fel llais ar gyfer newid ehangach.

Mae Bwyd Caerdydd yn rhan o **Synnwyr Bwyd Cymru**, sy'n anelu at ddylanwadu ar sut y caiff bwyd ei gynhyrchu a'i fwyta yng Nghymru, gan sicrhau bod bwyd, ffermydd a physgodfeydd cynaliadwy wrth wraidd system fwyd gyfiawn, cysylltiedig a ffyniannus.

Ble mae'r rhanbarth o gwmpas dinas Caerdydd?

Yn [Urban and peri-urban agriculture sourcebook](#) Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig (2022), nodir:

“Peri-urban agriculture takes place in the urban periphery. Peri-urban spaces act as a transitional zone between the inner city and the countryside; they tend to undergo dramatic change over time: land prices rise, there is an influx of people both from rural and intra-urban areas, density increases, multiple land-uses emerge and construction spreads.”

I ddechrau, roedd cwmpas y prosiect hwn yn gyfyngedig i ardal awdurdod lleol Cyngor Caerdydd. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r amcan o gynyddu ffermio amaethecolegol o gwmpas trefi, nododd Bwyd Caerdydd yn gyflym bod angen gweithredu mewn ffordd ranbarthol, er enghraifft drwy edrych ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Partneriaeth rhwng deg ardal awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg.



Mae gan y rhanbarth [boblogaeth o 1.5 miliwn](#) (ac mae ychydig dros [360,000 o'r boblogaeth honno yn byw yng Nghaerdydd](#)) ac yn cynnwys y ddwy ddinas Caerdydd a Chasnewydd, trefi marchnad, cymoedd de Cymru, cymunedau gwledig ac ardaloedd arfordirol.

Gweithdy i Randdeiliaid



Holiadur i'r cyfranogwyr a chyn y digwyddiad

Yn ogystal â Bwyd Caerdydd a Sustain, daeth 22 o randdeiliaid i'r digwyddiad (o blith y 25 a gofrestrodd). Rhestrir sectorau'r rhai a oedd yn bresennol yn y tabl isod.

Y grŵp mwyaf a gynrychiolwyd oedd ffermwyr neu dyfwyr ar 28%, ac yna cynrychiolwyr o'r diwydiant ar 14%.

Sector	Nifer y cyfranogwyr (dewisodd llawer o gyfranogwyr fwy nag un opsiwn)
Ffermwr / Tyfwr	8
Cynrychiolydd Diwydiant	4
Perchennog Tir	3
Sefydliad Anllywodraethol / Partneriaeth Bwyd	3
Arall _____	3
Manwerthwr Bwyd / Marchnadoedd	2
Gwneuthurwr Polisi	2
Ceisiwr Tir	1
Lletygarwch	1
Ymgynghori	1
Ymchwil	1

Wrth gofrestru, gofynnwyd cwestiynau i'r cyfranogwyr er mwyn llywio'r adroddiad hwn. Roedd yr atebion yn benagored ond yna cawsant eu grwpio'n themâu allweddol. Ymatebodd 19 o bobl a gallai eu ymatebion gwmpasu mwy nag un thema.

1. Beth yn eich barn chi yw'r Rhwystrau mwyaf i ffermio amaethcolegol (sy'n dda i'r hinsawdd a natur) yng Nghaerdydd a'r cyffiniau?

Themâu Allweddol yr Ymatebion	Nifer y cyfeiriadau
Mynediad i'r tir	9
Agweddau a gwybodaeth (soniodd yr ymatebwyr am agweddau tuag at ffermwyr, diwylliant, diffyg gwybodaeth, diffyg addysg)	7
Marchnad ar gyfer bwyd amaethcolegol (soniodd yr ymatebwyr am gost bwyd a chydbwysedd o ran ffermwyr yn cael eu talu am fwyd o ansawdd, modelau dosbarthu hygyrch)	4
Argaeledd tir (yn benodol diffyg tir sydd ar gael neu gyfyngiadau daearyddol)	4
Sgiliau	4
Buddsoddiad mewn busnes newydd	2

2. Beth yn eich barn chi yw'r cyfleoedd mwyaf i gynyddu ffermio amaethcolegol (sy'n dda i'r hinsawdd a natur) yng Nghaerdydd a'r cyffiniau?

Themâu Allweddol yr Ymatebion	Nifer y cyfeiriadau
Galw gan ddinasyddion ar hyn o bryd	6
Cyfle i gynyddu'r galw a'r marchnadoedd (roedd ymatebion yn cynnwys seilwaith corfforol a sbarduno'r galw drwy farchnata ac addysg)	5
Gallai Ffermio Ymylol fod yn ateb i fynd i'r afael â heriau (soniodd yr ymatebwyr am argyfwng hinsawdd, iechyd a llesiant, economi leol, gwydnwch y gadwyn gyflenwi)	5
Dilyn dull rhanbarthol cydweithredol	4
Bil Amaethyddiaeth	1

Trosolwg o'r Gweithdy

Cynhaliwyd Gweithdy Rhanddeiliaid Ffermio Ymylol Caerdydd ym mis Tachwedd 2022 gyda'r nodau canlynol:

1. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu traws-sector ar gyfer cynhyrchu bwyd amaetholegol masnachol yn rhanbarth Caerdydd;
2. Hwyluso cysylltiadau ymarferol rhwng pobl a phrosiectau (e.e. perchnogion tir a chynhyrchwyr) o amgylch Caerdydd;
3. Arddangos enghraifft o fenter arddwriaeth drefol

Dechreuodd y digwyddiad gyda thaith o amgylch [Gardd Salad Caerdydd](#), sy'n fenter gymdeithasol nid-er-elw gydag elfen fasnachol. Mae Gardd Salad Caerdydd yn cyflenwi salad ar feic i dros 40 o gwsmeriaid yn eu cartrefi yn rheolaidd ac i 11 o fwytai, yn ogystal â darparu cyfleoedd gwirfoddoli i wella iechyd meddwl a lleihau unigrwydd ac unigedd.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth bord gron i'r cyfranogwyr rannu eu profiadau a'u safbwyntiau ynghylch y rhwystrau a'r cyfleoedd o ran cynyddu ffermio o gwmpas trefi.

Ar gyfer y sesiwn olaf, rhannodd y cyfranogwyr yn dri grŵp ar gyfer gweithdy cynllunio gweithredu, gyda'r themâu a'r pwyntiau trafod canlynol:

Themâu'r Grwpiau	Pwyntiau trafod
1. Cael Gafael ar Dir	a) Camau y gall cyfranogwyr neu eu sefydliadau eu cymryd
2. Sgiliau a Hyfforddiant (ffermwyr a newydd-ddyfodiaid)	b) Camau y gall cyfranogwyr neu eu sefydliadau ddylanwadu arnynt
3. Addysg a Marchnata (dinasyddion)	

Crynodeb o Rwystrau a Chyfleoedd

Isod ceir crynodeb o'r rwystrau a'r chyfleoedd a nodwyd gan gyfranogwyr yn ystod y drafodaeth bord gron, gyda rhai ychwanegiadau gan randdeiliaid nad oedd modd iddynt fod yn bresennol.

Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022 a Chynllun Ffermio Cynaliadwy

Un o'r rwystrau a'r chyfleoedd mwyaf a drafodwyd oedd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer darparu'r holl gefnogaeth amaethyddol yn y dyfodol. Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022 yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy wrth i'r fframwaith ar gyfer cymorth i ffermydd yn y dyfodol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (y Cynllun) gael eu datblygu fel ffynhonnell o gymorth gan y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallent ddylanwadu ar y Cynllun, ond mae llawer yn dal yn ôl rhag cynllunio gweithgaredd newydd nes caiff y Cynllun ei gyhoeddi. Cododd y cyfranogwyr hefyd heriau yn y cynigion, fel targedau ar gyfer gorchudd coed a diffyg cefnogaeth ariannol i fentrau garddwriaethol bach. Codwyd rhai chyfleoedd, fel y [cynlluniau garddwriaethol newydd](#).

Argaeledd Tir, Mynediad a Chostau Sefydlu

Nodwyd bod argaeledd tir yn broblem yn ardal awdurdod lleol Caerdydd ei hun, ond bod polisi KP18 yn y [Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig](#) yn diogelu tir â graddau 1, 2 a 3a rhag datblygu a chaiff y polisi hwn ei ddatblygu yn y CDLI Newydd.

Gallai'r rhanbarth o gwmpas y ddinas sydd y tu allan i ffin awdurdod lleol Caerdydd, gan gynnwys ardaloedd mwy gwledig fel Sir Fynwy, fod â mwy o botensial i gynyddu cynhyrchu bwyd amaethecolegol.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo bod digon o dir ar gael yn y rhanbarth o gwmpas y ddinas, ond bod rwystrau eraill fel gweithwyr medrus a'r galw yn fwy o broblem.

Nododd y grŵp rai chyfleoedd presennol ac astudiaethau achos arfer gorau gan gynnwys:

- [Mentor Cyswllt Ffermio](#) sydd wedi'i gynllunio i baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n bwriadu camu'n ôl o'r diwydiant â newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am fynediad i'r maes ffermio;
- Mae Ystâd Fonmon ym Mro Morgannwg wedi cynnig cyfle ar gyfer menter arddwriaeth;

- [Ein Bwyd 1200](#) sy'n anelu at sicrhau 1200 o erwau o dir ar gyfer garddwriaeth adfywiol yn Sir Fynwy a Bannau Brycheiniog;
- Banc tir yw Tir Pontypridd, gyda'r nod o brynu tir at ddefnydd y gymuned, a allai gynnwys ffermio amaethecolegol.
- Mae cymuned Treherbert (a gynrychiolir drwy Croeso i'n Coedwig a Phrosiect Gorwel y Rhondda) wedi llofnodi Cytundeb Rheoli Cymunedol cyntaf Cymru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar, yn dilyn cynhyrchu cyd-gynllun [Gweledigaeth Coedwigoedd y Dyfodol](#) drwy 2021-22, gan gynnwys cynlluniau i ddefnyddio Ystâd Goed Llywodraeth Cymru mewn ffordd arloesol ar gyfer amaethgoedwigaeth a chadernid bwyd cymunedol.

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn teimlo bod cryn gystadleuaeth yn y farchnad bresennol ar gyfer tir, yn enwedig ar gyfer cynnyrch nad ydynt yn fwyd (e.e. tai, cynhyrchu coed, ffermydd solar). Cafodd pris ac argaeledd tai ar gyfer ffermwyr a thyfwyr ei godi fel ystyriaeth hefyd. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn arwain at brisio pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid allan o'r farchnad. Mae Cymdeithas Gweithwyr y Tir wedi [modelu'r costau sefydlu](#) sydd eu hangen i sefydlu mentrau garddwriaethol newydd, gyda gardd farchnad 3 erw oddeutu £150,000. Un cyfle a godwyd, oedd y potensial i ddeall yn well yr effaith ar iechyd a llesiant, unwaith y bydd tir wedi'i sicrhau a'i ddefnyddio.

Sgiliau a swyddi

Bu'r cyfranogwyr yn trafod y ffaith bod angen gweithwyr medrus ar gyfer ffermio a chyfeiriwyd at gyfle i uwchsgilio newydd-ddyfodiaid a ffermwyr presennol i fabwysiadu arferion amaethecolegol. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylid diffinio ffermio amaethecolegol yn well er mwyn galluogi ffermwyr i newid dulliau cynhyrchu.

Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod dibynnu ar lafur gwirfoddol yn dangos diffyg gweledigaeth a bod cyfle gwell i ddatblygu llwybrau gyrfa tuag at fywoliaeth urddasol ar y tir sy'n cynnig sicrwydd ac sy'n talu cyflog byw. Yn enwedig o fewn y sector garddwriaeth fasnachol, teimlai rhai cyfranogwyr fod mwy o swyddi tyfwyr yn cael eu hysbysebu na'r nifer o staff sydd ar gael a bod hyn yn rhwystr allweddol rhag cynyddu'r broses cynhyrchu.

Un cyfle i fentrau sy'n bodoli eisoes yw rhaglenni fel [Tyfu Cymru](#) sy'n cynnig hyfforddiant a chefnogaeth am ddim.

Cadwyni Cyflenwi a Marchnata

Bu'r cyfranogwyr yn trafod y cyfle i'r farchnad lywio cynnydd o ran cynhyrchu bwyd amaethecolegol.

Er enghraifft, fel rhan o gynllun peilot bach yn 2022, bu tîm arlwyo addysg Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda menter arddwriaeth leol a chyfanwerthwr i brynu llysiau a dyfir yn lleol ar gyfer 'Bwyd a Hwyl', sef cynllun darpariaeth gwyliau'r haf, sy'n gweithredu mewn 29 o ysgolion i dros 1500 o ddisgyblion. Er ei bod yn rhaglen beilot fach, gellid ehangu hyn i gefnogi cynnydd mewn cynhyrchu bwyd amaethecolegol yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun cyflwyno [Prydau Ysgol am Ddim i Bawb](#) i ddisgyblion ysgolion cynradd Cymru. Mae'r rhaglen [Mannau Gwyrdd Gwydn](#) hefyd yn helpu i sefydlu pum hwb bwyd mentrus a chynaliadwy newydd mewn cymunedau ledled Cymru.

Nododd y cyfranogwyr hefyd fod angen marchnata ac addysg i gynyddu nifer yr aelwydydd sy'n prynu bwyd amaethecolegol yn uniongyrchol. Yng nghyd-destun garddwriaeth, dywedodd un tyfwr *"y gallai unrhyw ymdrech i gynyddu cynhyrchiant garddwriaeth amaethecolegol heb weithio'n gyntaf i gynyddu'r galw, gael effaith niweidiol ac uniongyrchol ar gynhyrchwyr masnachol lleol presennol"*.

Cododd y cyfranogwyr hefyd y mater o gyfanwerthu a'r ffaith bod cwsmeriaid unigol yn mynegi diddordeb mewn prynu bwyd sydd wedi'i dyfu'n lleol ond yn methu neu'n amharod i dalu'r gost ychwanegol a/neu'n methu addasu i newidiadau tymhorol.

Crynodeb o'r Gweithdy Cynllunio Gweithredu

Thema	Camau y gall y cyfranogwyr neu eu sefydliadau eu cymryd	Camau y gall y cyfranogwyr neu eu sefydliadau ddylanwadu arnynt
Cael Gafael ar Dir	<p>Casglu astudiaethau achos o arferion gorau, a allai gynnwys sut i rannu ffermydd mwy yn leiniau llai neu'n fentrau lluosog</p> <p>Datblygu canllawiau i dirfeddianwyr ar rannu tir / arbed tir, er enghraifft gan gynnwys dulliau o wneud tenantiaeth yn ddiogel</p> <p>Datblygu canllawiau i geiswyr tir ar sut i gysylltu â thirfeddianwyr a chynnal trafodaethau</p> <p>Cynnal digwyddiad penodol ar gael gafael ar dir</p> <p>Cynnig tir sydd ar gael ar gyfer tyfu bwyd</p> <p>Ymchwilio i opsiynau ar gyfer tyfu cymunedol i gynyddu maint a darparu cynnyrch yn fasnachol e.e. rhandiroedd, Bwyd Bendigedig</p>	<p>Dylanwadu ar ofynion Datblygiadau Un Blaned i gynyddu eu hygyrchedd a'u cymhwysedd i bolisi cynllunio</p> <p>Meithrin perthynas ac ymddiriedaeth rhwng tirfeddianwyr a cheiswyr tir, er enghraifft drwy bartneriaethau bwyd</p> <p>Dylanwadu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Bil Amaethyddiaeth</p>
Sgiliau a Hyfforddiant (ffermwyr a newydd-ddyfodiaid)	<p>Rhannu astudiaethau achos cadarnhaol o newydd-ddyfodiaid a/neu hyfforddeion</p> <p>Ffurfioli rhaglenni hyfforddi presennol i fod yn fwy hirdymor, er enghraifft 3 blynedd+</p> <p>Gweithio gyda cholegau i ddarparu cyrsiau yn y rhanbarth o gwmpas dinas Caerdydd</p>	<p>Codi proffil ffermio o gwmpas trefi fel opsiwn gyrfa, er enghraifft drwy ffeiriau gyrfaeodd neu wasanaethau</p> <p>Dylanwadu ar y Cwricwlwm newydd i Gymru i ymgorffori'r gwaith o ddatblygu sgiliau amaeth a garddwriaeth</p>
Addysg a Marchnata (dinasyddion)	<p>Gweithio gyda ffermydd er mwyn cynyddu'r broses o rannu gwybodaeth a dod â phobl i'r fferm. Nodwyd bod parodrwydd ymhlith ffermwyr i gymryd rhan yn hyn</p> <p>Mynd â ffermio i ysgolion a chynnwys y celfyddydau creadigol mewn addysg bwyd a ffermio i rannu sgiliau traddodiadol</p> <p>Cyflwyno ymgyrchoedd i symleiddio'r broses o gael bwyd lleol</p>	<p>Dylanwadu ar becynnau addysg mewn ysgolion a ddarperir gan fusnesau trydydd sector neu annibynnol</p> <p>Cynyddu nifer y cynhyrchwyr o gwmpas trefi sy'n gallu ymgysylltu ag ysgolion</p> <p>Gweithio i wella llwybrau trafndiaeth ac opsiynau i symud bwyd yn y rhanbarth o gwmpas trefi, er enghraifft banc dosbarthu neu hwb caffael a rennir</p>

Y Camau Nesaf ar gyfer 2023

Mae'r gweithdy i randdeiliaid wedi rhoi dechrau da i wireddu'r uchelgais o gynyddu cynhyrchiant bwyd amaethecolegol yn y rhanbarth o gwmpas dinas Caerdydd.

Mae'r camau dilynol a nodwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:

- Gwneud cysylltiadau mewn perthynas â'r [Her Cynhyrchu a Chyflenwi Bwyd yn Gynaliadwy](#)
- Trefnu cyfarfodydd a thrafodaethau ag eraill o'r digwyddiad i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol (*nodwyd gan nifer o gyfranogwyr*)
- Bod yn rhan o weithgor yn ymwneud â deddfwriaeth Hawliau Cymunedol i Dir (*Rhannodd cyfranogwr arall [bapur ar Asedau Cymunedol](#) gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru*)
- Ymgorffori camau i gynyddu cynhyrchu bwyd amaethecolegol o gwmpas trefi yn ddyfnach i waith presennol megis y rhaglen Mannau Gwyrdd Gwydn
- Mynd i Gynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru i rwydweithio ac ehangu'r sgwrs am ffermio o gwmpas trefi
- Cynnig ymchwilio i gyfleoedd Ymchwil a Datblygu i gefnogi arferion gorau

Y cytundeb cyffredinol o ran y cam nesaf oedd cynnal gweithdai pellach gyda chwmpas rhanbarthol, er mwyn galluogi mwy o weithredwyr i ddod at ei gilydd i drafod canolbwynt y gwaith, y camau nesaf a'r hyn y gallwn ei wneud ar y cyd i droi'r nodau'n bwyntiau gweithredu.

Yn 2023, bydd Bwyd Caerdydd yn cynnull gweithgor i fwrw ymlaen â hyn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu rhagor am y prosiect neu fod yn rhan o drafodaethau yn y dyfodol, cysylltwch â foodsensewales@wales.nhs.uk

Atodiad 1: Cyfranogwyr y gweithdai a chyfranwyr

Gyda diolch i'r sefydliadau canlynol a ddaeth i'r Gweithdy Rhanddeiliaid Ffermio Ymylol a/neu a gyfrannodd i'r adroddiad:

Anhysbys x 3
BIC Innovation
Blas Gwent
Cyngor Caerdydd
Gardd Salad Caerdydd
Coed Organig (<i>methu bod yn bresennol ond wedi cyfrannu at yr adroddiad</i>)
DTA Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Bwyd y Fro
Gweithwyr y Tir (LWA Cymru)
Lantra
Ein Bwyd 1200
Cymdeithas Tir Pontypridd
Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon
Shared Assets (<i>methu bod yn bresennol ond wedi cyfrannu at yr adroddiad</i>)
Sustain
Urban-Vertical CIC
Croeso i'n Coedwig
WWF Cymru